Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Gweithiwr Glanhau x2**

**Lleoliad:** **Gweler y tabl isod**

**Cyfarwyddiaeth:** **Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol**

**Cyf. / Rhif y Swydd:** **BG07470 & BG07462**

**Cyflog:** **Gradd 1 (£24,404 y flwyddyn, pro rata) – i'w adolygu**

**Oriau:** **Gweler y tabl isod**

**Contract:** **Parhaol**

**Crynodeb o'r Swydd**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol ym Mlaenau Gwent am recriwtio dau weithiwr glanhau yn barhaol i gyflawni dyletswyddau glanhau mewn sefydliadau yn y fwrdeistref.

**Mae dwy swydd ar gael. Nodwch ar eich cais y lleoliad gwaith sydd orau gennych.**

**Hysbyseb Lawn**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol am recriwtio dau weithiwr glanhau i gynnal safonau glanhau mewn unrhyw ardaloedd a nodwyd.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn glanhau unrhyw ardal ddynodedig i safon benodol drwy ddefnyddio cemegau, offer a pheiriannau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn cynnal a chadw ei gwpwrdd, offer a pheiriannau trwy eu glanhau a'u storio'n gywir ar ôl eu ddefnyddio. Byddwch hefyd yn gosod archebion pan fydd angen cemegau ac offer newydd.

Dylai'r ymgeiswyr llwyddiannus allu gweithio fel rhan o dîm, bod â'r gallu i ddefnyddio eu menter eu hunain, a bod yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer y swydd.

| Rhif Swydd | Oriau | Lleoliad |
|---|---|---|
| BG07470 | 10 awr yr wythnos, 41 wythnos y flwyddyn | Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr (Cyfnod Uwchradd) |
| BG07462 | 9 awr 40 munud yr wythnos, 41 wythnos y flwyddyn | Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr (Cyfnod Cynradd) |

**Cyraeddiadau Addysgol / Profiad**

Mae gwybodaeth am y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ac arferion iechyd a diogelwch sylfaenol, ynghyd â phrofiad ohonynt, yn ddymunol.

**Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad cofnodion troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg – gofynnir i chi gwblhau'r fersiwn Gymraeg o'r ffurflen cais am gyflogaeth.**

**I gael gwybodaeth am ailgyflogaeth ac ail-gyflogi cyn-weithwyr, cyfeiriwch at Bolisi Tâl y Cyngor.**

**Dyddiad Cau:** **30 Lonawr 2025 – 12am, hanner nos**

**Dyddiad y Cyfweliad:** **6 Chwefror 2025**

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG